**SWYDD RHEOLWR RHAGLENNI**
**PECYN GWYBODAETH**
**MAI 2025**

## AMDANOM NI

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru Music Fund Wales yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r elusen bellach ar gam cyffrous yn ei datblygiad, gyda Phrif Weithredwr amser llawn, sy'n dwyn yr ymddiriedolwyr a'r tîm ynghyd i weithio tuag at gyflawni ei gweledigaeth a'i chenhadaeth:

Ein gweledigaeth yw Cymru lle y gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol nerthol i bobl ifanc sy'n ysgogi hunanfynegiant, datblygiad personol a llesiant.

Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau, ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf tuag at yrfaoedd cerddorol.

Mae Anthem yn gatalydd ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, ac yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn creu cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem yn ceisio sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynhwysiant, parch a gwahaniaeth – yn sail i holl feysydd gwaith y sefydliad a'i nod yw eu hyrwyddo yn ei bwrdd, ei harferion cyflogaeth ac ar draws ei gwaith. Mae Anthem yn llywio ei gwaith i fod yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol, a chreadigol, ac i ysbrydoli.

**Y RÔL**

Rydym yn dymuno penodi Rheolwr Rhaglenni i weithio gyda'n Prif Weithredwr i gynllunio a rhedeg digwyddiadau a rhaglenni ariannu Anthem.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhywun a all fwrw ati ei hun yn drefnus, ac sydd â'r egni i yrru gweithgareddau a phartneriaethau'r rhaglenni. Bydd yn gyfathrebwr da, ac yn fedrus ar redeg prosesau strwythuredig, trefnu digwyddiadau, rheoli data, asesu, gwerthuso ac adrodd.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd angerdd ynglŷn â datblygu pobl ifanc drwy gerddoriaeth ar draws yr holl genres a mynd i'r afael â rhwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i gyfathrebu gydag unigolion sydd wedi'u tangynrychioli / sydd wedi'u hesgeuluso neu'u hallgáu o gymuned y celfyddydau, a byddem yn croesawu'n benodol geisiadau gan bobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig amrywiol, pobl LGBTQ+, ac unigolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd wedi'u tangynrychioli. Mae Anthem yn croesawu ceisiadau oddi wrth bobl sy'n dysgu'r Gymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Bydd y Rheolwr Rhaglenni'n atebol i'r Prif Weithredwr ac yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a Fforwm FFWD.

**SUT I YMGEISIO**

Darllenwch y disgrifiad o'r rôl a manyleb y person isod ac anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn dweud wrthym pam fod y rôl o ddiddordeb i chi a sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r hyn rydym yn edrych amdano.

Llwythwch eich CV a llythyr eglurhaol i'r ddolen yma:

https://airtable.com/appDe0XMQUT303tTL/pagYzQCMpPFUGfxDD/form

- Y terfyn amser i gyflwyno ceisiadau yw dydd Llun 26 Mai am 5yp.
- Cewch wybod a ydych yn cael eich gwahodd i gyfweliad erbyn dydd Mercher 28 Mai.
- Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar ddydd Iau 5 Mehefin 2025.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig i'ch galluogi i wneud cais i'r rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i rhian.hutchings@anthem.wales

**DISGRIFIAD O'R RÔL**

Contract: Contract Parhaol – Rhan Amser
Cyflog: £30,000 y flwyddyn, pro rata dros 4 diwrnod yr wythnos (28 awr yr wythnos)
Lleoliad: Swyddfa Anthem, 202 Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd, CF23 5DT

Bydd y Rheolwr Rhaglenni yn gyfrifol am reoli a chyflawni rhaglen Dyfodol Cynaliadwy, Rhaglen Atsain a'r Gronfa Dilyniant.

- Mae rhaglen Atsain yn cynnwys rheoli'r rhai rydym eisoes yn eu hariannu a rheoli prosiect Curaduron Ifanc.
- Bydd y Gronfa Dilyniant yn meithrin doniau cerddorol ifanc Cymru drwy gynnig grantiau bach i unigolion i gefnogi eu datblygiad. Rydym yn disgwyl cynnal galwad ariannu ar gyfer Dilyniant yn 2024 / 2025 a digwyddiadau i ddod â'r rhai sy'n derbyn grant ynghyd.
- Bydd rhaglen Dyfodol Cynaliadwy yn cynnwys cynllunio a rheoli sesiynau Hyfforddiant Sgiliau ar gyfer Cynaliadwyedd, a datblygu elfen drefniannol y gwaith hwn.
- Cynllunio a rheoli rhwydwaith Atsain a fydd yn bodoli ochr yn ochr â'r holl elfennau hyn.

Tasgau

- Cynllunio, rheoli a chyflawni'r rhaglenni gweithgaredd
- Rheoli prosesau ynghylch ffrydiau cyllido allweddol
- Paratoi canllawiau ymgeisio a rheoli prosesau ymgeisio
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Codi Arian i gefnogi ceisiadau ac adrodd i arianwyr rhaglenni Anthem
- Gweithio gyda Rheolwr Cyfathrebu Anthem i reoli cyfathrebiadau
- Rheoli'r broses benderfynu a dosbarthu grantiau, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi aelodau ifanc o'r panel
- Cynllunio a rheoli cyfarfodydd rhwydwaith ymarfer ar gyfer y sector ehangach
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i reoli'r gwaith o werthuso ac adrodd ar bob rhaglen sydd ar y gweill
- Bod yn rheolwr llinell ar staff iau yn ôl y gofyn
- Adrodd i'r ymddiriedolwyr yn ôl y gofyn

Canlyniadau Allweddol 2025 2026

- Cyflawni Hyfforddiant Sgiliau ar gyfer Cynaliadwyedd
- Cwblhau Curaduron Ifanc Cymru 2025
- Cyflawni rownd o'r Gronfa Dilyniant
- Cyflawni dau gyfarfod rhwydwaith ymarfer yn ystod 2025 2026

Nodweddion

- Gofod swyddfa yn Bizspace, 202 Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd, CF24 0ED
- y gallu i deithio i fynychu cyfarfodydd neu fynychu cyfarfodydd ar-lein
- gwybodaeth ymarferol o blatfformau digidol, gan gynnwys Zoom, Google, Slack, Airtable
- y gallu i gefnogi digwyddiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau os oes angen

Manyleb y Person

| Gwybodaeth a Phrofiad |
| --- |
| Gwybodaeth am brosesau a gweithdrefnau darparu grantiau |
| Gwybodaeth am addysg cerddoriaeth a thirwedd cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru |
| Profiad o weithio yn y sector elusennol neu gyda’r sector |
| Profiad o gasglu data a gwerthuso |
| Sgiliau a Galluoedd |
| Sgiliau trefnu, rheoli prosiect a chyllidebu cryf |
| Sgiliau rhagorol wrth reoli digwyddiadau |
| Sgiliau dadansoddi da, gyda’r gallu i gasglu, dehongli ac asesu gwybodaeth o amryw ffynonellau, asesu risg a nodi materion allweddol |
| Rhagorol â thechnoleg – cronfeydd data, awtomeiddio tasgau, gweithio gyda data, Google, e-bost a’r cyfryngau cymdeithasol |
| Cyfathrebu’n rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| Y gallu i weithio’n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg |
| Rhinweddau Personol |
| Aelod rhagorol o dîm sy’n ysbrydoli ymddiriedaeth |
| Y gallu i weithredu’n hyderus – yn barod i gymryd y cam cyntaf ac yn gweithio heb lawer o oruchwyliaeth |
| Integriti personol – tystiolaeth o ddoethineb, gonestrwydd a bod yn agored |
| Dymunol |
| Profiad o weithio’n ddwyieithog |
| Mae Anthem yn croesawu ceisiadau oddi wrth bobl sy’n dysgu Cymraeg neu sy’n rhugl yn y Gymraeg |